Site Stakeholder Group

SAFLE TRAWSFYNYDD

COFNODION NAWFED CYFARFOD
GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE
A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDAU A CHYNEFINO
DDYDD LLUN 1 RHAGFYR 2008

YN BRESENNOL

Cyng J Isgoed Williams	Cadeirydd, Cyngor Cymuned Trawsfynydd

Safle Trawsfynydd

Dr Phil J Sprague	Cyfarwyddwr y Safle
Mrs Edwina Winter	Dirprwy Gyfarwyddwr
Mr Mark Stubbs	Rheolwr Peiriannau
Mr Robin S Ward	Ffisegydd Iechyd y Safle
Mr Raymond Parry	SJC
Mr David Finchett	Uwch Reolwr Prosiect
Mr Richard Foxhall	Swyddog Cyfathrebu
Mr Ray Gwyn Jones	Magnox North - Maentwrog
Mrs Karen Hughes	Cynorthwyydd Cyfathrebu – Ysgrifenyddiaeth

Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Ms Gill Eilbeck	Rheolwr Arweiniol Rhaglen y Safle
Mr Glenn Vaughan	Rheolwr Rhaglen y Safle

Cyngor Gwynedd

Mr Emyr Searell Jones	Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd
Mrs Shirley Huws	

Cynghorau Cymuned a Thref

Cyng John Ll Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Cyng D Morris Jones	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Cyng Beryl W Williams	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyng D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Idwal W Williams	Traws-Newid
Mr Islwyn Morris	Deudraeth Cyf

Arsylwyr

Mr Alan Hall	Dwr Cymru
Mr Peter Ford	Prif Arolygydd yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear
Mr Ian Bretherton	Prif Arolygydd yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear
Mr Stuart Conney	Asiantaeth Safonau Bwyd
Mrs Catrin Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mr Elfyn Llwyd	Aelod Seneddol

Rhai nad ydynt yn aelodau

Mr Gwynfor Owen	Cymen
Mrs Eirian V Lewis	Magnox North – Safle Oldbury

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a bu iddo gyflwyno Gill Eilbeck Rheolwr Arweiniol Rhaglen y Safle, Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Hefyd croesawodd Eirian Vaughan Lewis o Safle Oldbury. Bu i'r Cadeirydd hysbysu'r cyfarfod fod Andy McAteer wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar trwy farwolaeth ei dad.
Gweithrediad: Karen Hughes i anfon llythyr o gydymdeimlad.

2. **Ymddiheuriadau**

Mr David Hinchliffe	Magnox North
Arolygydd Meirion Ellis	Heddlu Gogledd Cymru
Mr Mike Willis	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Mr Mark Drulia	Magnox North
Mrs Sara Johnston	ADN
Mrs Sonia Thompson	Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
Lord Dafydd Elis Thomas	AC
Mr John Gilliland	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Mr Dylan Griffiths	Cyngor Gwynedd
Cllr Tom G Ellis	Cyngor Gwynedd
Cllr Gwilym Euros Roberts	Cyngor Gwynedd
Mr Keith T O'Brien	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Andrew Fairhurst	Asiantaeth yr Amgylchedd
Mr Iwan Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr H Madog Jones	Magnox North
Mr Andy McAteer	Magnox North
Mr John Idris Jones	Magnox North

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 2 Mehefin 2008**

3.1 Cadarnhawyd y cofnodion a'u derbyn fel cofnod cywir o'r trafodion.

4. **Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd 2 Mehefin 2008**

4.1 Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

5. **Anerchiad y Cadeirydd**

5.1 Y Cadeirydd wedi mynychu 3 cyfarfod ar y Safle.

5.2. Y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod o Gadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd a gynhaliwyd ym Maenceinion ar y 27 Hydref 2008. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Neil Baldwin a'r prif bwnc a drafodwyd oedd gwahaniad Magnox Electric i Magnox North a Magnox South.

5.3 Y Cadeirydd a Richard Foxhall wedi mynychu cyfarfod yn swyddfeydd yr ADN yn Warrington, bu trafodaethau parthed cyfrifoldebau a dulliau newydd ar gyfer Cadeiryddion ac Ysgrifenyddiaeth Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd. Mae'r cyfansoddiad newydd sydd wedi ei gynnig ar gyfer GRhS yn cael ei ail-ddraftio a dylai fod ar gael i'w drafod a'i dderbyn yn y dyfodol agos. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod o aelodau'r GRhS i drafod y cyfansoddiad newydd.

5.4 Y Cadeirydd ac Idwal W Williams wedi mynychu Cynhadledd Genedlaethol Rhanddeiliaid Safleoedd ym Maenceinion ar y 4, 5 a 6 Tachwedd 2008. Trafodwyd Cynllun Busnes yr ADN am 2008/11. Mae angen sylwadau ar y cynllun busnes drafft erbyn y 26 Ionawr 2009 a cytunwyd y dylid anfon copi o'r cynllun i aelodau GRhS sydd a'r hawl i bleidleisio a dylai unrhyw sylwadau gan eu hanfon i unai Richard Foxhall neu Karen Hughes.
Gweithrediad : Karen Hughes i anfon copi o'r Cynllun Busnes i'r aelodau sydd a'r hawl i bleidleisio.

6. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

6.1 Bu i Dr Phil Sprague, trwy gyfres o sleidiau, adrodd ar y gwaith a'r cynnydd a wnaethpwyd ar y Safle ers y cyfarfod diwethaf.

6.2 Diogelwch

Dyddiau ers Damwain Colli Amser – 817
Dyddiau ers yr Anaf Cofnodadwy diwethaf - 233
Digwyddiadau Cofnodadwy - 1
Cyfradd Achosion Diwrnodau i Ffwrdd - 0
Cyfartaledd Dyddiau o Absenoldeb - 5.12 (mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol)

Eglurodd bod diogelwch yn ffactor bwysig iawn ar y Safle.

6.3 Prosiectau Diweddaraf

6.3.1 Storfa Gwastraff Lefel Canolradd – dylai'r storfa fod wedi ei chomisiynu yn derfynol erbyn Mehefin/Gorffennaf 2009. Bu i'r storfa ennill gwobr adeiladwaith gan y 'Concrete Society' yn ddiweddar.

6.3.2 Gwaith Gostwng Uchder – Mae'n rhaid gweithredu pedwar prosiect sylweddol cyn dechrau tynnu'r tô.

6.3.3 Tynnu'r Bwyleri – Mae 38 o'r 48 rhain wedi ei cwblhau.

6.3.4 Tô Capio – Mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda Storfa Ddiogel 2 wedi ei ddatblygu ymhellach na Storfa Diogel 1.

6.3.5 Adennill Cydrannau Egnïoledig Amrywiol – Wedi ei gwblhau yn Storfa Diogel 1 a dylai Storfa Diogel 2 gael ei gwblhau erbyn Mawrth 2009. Dyma'r ffrwd gweddillion gyntaf i'w hadennill drwy Magnox North gyfan.

6.3.6 Adennill Malurion Rhodenni Tanwydd – Y gwaith yn mynd rhagddo. Mae hyn yn bwysig iawn er mwyn cwblhau y gwaith ar y safle yn gyfangwbl.

6.3.7 Resin – Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei wneud gyda 1,763 o gasgenni wedi eu llenwi. Bydd rhain yn cael eu symud i'r Storfa Gwastraff Lefel Canolradd unwaith y bydd wedi ei gomisiynu.

6.3.8 Brasnaddu Pyllau – Mae'r dwr wedi ei glirio ac mae 2 o'r 4 llwybr hefyd wedi eu clirio. Mae 56 tynnell o goncrit , sef 66 casgen gwastraff llawn, wedi eu hanfon i Cumbria.

6.3.9 Celloedd Gwastraff Egnïol – Mae 8 or 9 cell wedi eu gwagu ac mae 51m^3 or gwastraff wedi ei ostwng i 16m^3 o wastraff canolradd.

6.3.10 Ymweliadau – Cafwyd nifer o ymweliadau yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys Jane Davidson Cynulliad Cenedlaethol Cymru, David Jones AS a'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC.

6.3.11 Cymdeithasol-economaidd

Cyflogaeth

• staff	217	lleol	202
• asiantaeth	34	lleol	20
• contractwyr	290	lleol	158
Cyfanswm	**541**	**lleol**	**380**

(nid yw'r holl weithwyr asiantaeth a chontractwyr yn rhai llawn amser)

6.3.12 Cymorth cymunedol

Cymorth ariannol i fudiadau lleol a digwyddiadau – cyllid o £10,000 (amcan hyd at ddiwedd Mawrth 2009).
Mae cyllideb gyfyngedig hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau adfywio sydd o fewn canllawiau'r ADN – rhaid i geisiadau am fwy o arian gael eu cyflwyno yn uniongyrchol i'r ADN trwy'r safle.
Cymorth ariannol i Eisteddfod Genedlaethol y Bala 2009 - £50,000 (wedi ei dalu)

Cymorth Addysgol

Ail-gyflwynwyd y Rhaglen Cymorth Addysgol dair blynedd yn ôl ac erbyn hyn mae dros 1,000 o ddisgyblion ysgolion cynradd a dros 200 o ddisgyblion ysgolion uwchradd wedi mynychu gwahanol weithgareddau yn y Ganolfan Gynadleddau a Chynefino. Hefyd mae dros 50% o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi derbyn cymorth o'r Safle. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys y cwis ysgolion cynradd blynyddol, rhaglenni profiad gwaith, ymweliadau ysgolion, gwyl wyddonol blynyddol, cystadleuaeth K'nex a cystadleuaeth pont ICE.

6.4 Cynllun Busnes ADN

Adroddwyd bod y Cynllun Busnes drafft am 2009-2012 wedi ei baratoi ar gyfer ymgynghoriad ac mae y cyllid (amcan) ar gyfer y Safle fel a ganlyn:

2009-10 - £50.4m
2010-11 - £53.8m
2011-12 - £65.7m

6.5 Cyng Meredydd Williams – Pa bryd yr ydych yn gobeithio cwblhau y prosiect? Mae'r flwyddyn 2023 wedi ei nodi o fewn y cynllun ond yr ydym yn gobeithio gostwng hyn o 2 neu 3 blynedd – hynny yw cwblhau y cyfnod gofal a chynnal nid clirio'r safle yn derfynol.

6.6 Cyng Morris Jones – Faint fydd yn cael eu cyflogi ar y Safle erbyn hynny? Ugain neu deg a'r hugain ar y mwyaf a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn weithwyr diogelwch/gwarchodwyr.

6.7 Cyng Meredydd Williams – Oes amserlen ar gyfer cwtogi'r gweithlu, hefyd a fydd hyn yn cael ei wneud ar raddfa?
Bydd yn cael ei wneud ar raddfa a bydd natur y gwaith yn newid fel mae'r prosiect yn datblygu.

7. Adroddiad Blynyddol Ffisegwr Iechyd y Safle

7.1 Cafwyd crynodeb o'r canlyniadau blynyddol ar gyfer y safle gan Robin Ward sy'n datgan bod yr holl ollyngiadau i'r llyn a'r amgylchedd yn parhau o fewn y terfynau a bennir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

7.2 Mae uchafswm y dognau ymbelydredd i'r cyhoedd yn gyfran fechan iawn o'r lefelau a ganiateir, ac mae y dognau ymbelydredd i bawb sy'n gweithio ar y safle'n parhau i fod ar lefelau isel iawn.

7.3 Mae rhaglen mewn llaw i wella cyflawniadau amgylcheddol.

7.4 Mae lefelau gollyngiadau Caesium 137 i'r llyn yn parhau i fod yn isel iawn.

7.5 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn adolygu pob gollyngiad ac yn cyfyngu'r lefelau awdurdodedig.

7.6 Mae lefel actifedd y llyn yn parhau yn 0.

7.7 Mae ugain o gasgenni ISO gwastraff isel wedi eu hanfon i Drigg yn ystod 2008, mae hyn yn fwy nag unrhyw safle arall.

7.8 Roedd copïau o Adroddiad Blynyddol Ffisegydd Iechyd y Safle 'Discharge of Radioactive Liquid Effluents & Environmental Monitoring Results to October 2008' ar gael yn y cyfarfod. Mae rhagor o gopïau ar gael oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth.

8. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng

8.1 Eglurodd Mr Robin Ward fod Lisa Conway wedi mynychu'r cyfarfod ar y 23 Medi 2008 yn ei le.

8.2 Ymarferiadau Argyfwng
Adroddodd bod yr ymarferiad lefel 1 o drefniadau argyfwng y safle ar gyfer yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear wedi ei gynnal ar 13 Mai 2008. Roedd yr ymarferiad, dan yr enw 'Dragoon', wedi ei gynnal yn ystod y dydd, oherwydd hynny, nid oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gallu cymryd rhan. 'Roedd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cymryd rhan. 'Roedd yr ymarferiad yn cael ei ystyried fel arddangosiad digonol o'r trefniadau.

8.3 Mae nifer o ymarferion a dyddiau hyfforddiant wedi eu cynnal rhwng diwedd Mawrth a dechrau Mai. Defnyddiwyd hyn i gyflwyno aelodau newydd i'r cynllun, hefyd defnyddiwyd un o'r ymarferion i asesu sut yr oedd darpar Reolwr Argyfwng yn cymryd cyfrifoldeb o ddigwyddiad.

8.4 Adroddwyd gan Wylfa bod ymarferiad argyfwng wedi ei gynnal ym Maentwrog ar y 15 Hydref 2008 a bu i'r tri gwasanaeth argyfwng gymryd rhan.

8.5 Materion Cenedlaethol – Mae'r gwaith parthed paratoi canllawiau'r cyfarwyddiadau adfer damwain niwclear allweddol yn parhau.

8.6 Mae cynnydd wedi bod yn y symudiadau i drefnu cyd-gynnal ymarferion rhwng Argyfwng a Diogelwch, fodd bynnag, gyda'r DBERR yn arwain ar Gynllunio Argyfwng a'r Swyddfa Gartref yn arwain ar Ddiogelwch mae pryder y bydd hyn yn creu dryswch. Mae dogfen yr ADN yn nodi fodd bynnag mae'r Rheolwr Argyfwng sydd a chyfrifoldeb llawn ar y Safle.

8.7 Nid oes bwriad i ddechrau ar y Cynllun Pandemig Ffliw gan fod pethau wedi distewi.

8.8 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng yn Wylfa ar 17 Mawrth 2009.

8.9 Darparwyd copïau o adroddiad y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng yn y cyfarfod ac mae copïau ychwanegol ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth.

9. Adroddiad gan Arolygydd Safle yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear

9.1 Adroddodd Peter Ford fod archwiliadau ar gyfer yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear yn dderbyniol ond mae rhai materion angen sylw ond eglurodd bod gan y Safle gynlluniau i wella'r adeiladau. Adroddodd mai Ian Bretherton fydd yn gweithredu'r swydd o hyn ymlaen a dymunwyd y gorau i Peter Ford i'r dyfodol.

9.2 Darparwyd copïau o'r adroddiad chwarterol yn y cyfarfod ac mae copïau ychwanegol ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth.

10. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd

10.1 Nid oedd yn bosib i Andrew Fairhurst fynychu'r cyfarfod gan nad oedd yn dda, fodd bynnag, darparwyd copiau o'i adroddiad yn y cyfarfod ac mae copiau ychwanegol ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth.

11. Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

11.1 Cafwyd trosolwg a chrynodeb gan Stuart Conney o ganlyniadau lefelau'r Ymbelydredd mewn Bwyd ac yn yr Amgylchedd yng nghyffiniau safle Trawsfynydd. Dangosodd y canlyniadau lefelau isel o ymbelydredd mewn bwyd ac yn yr amgylchedd. Mae'r canlyniadau yn dangos yn glir bod dognau o fewn y terfynau a argymhellir.

11.2 Mae adroddiad 'Radioactivity in Food and the Environment (RIFE)' yn cael ei gyhoeddi ar y 1 Rhagfyr 2008 a dylai copiau fod ar gael erbyn diwedd yr wythnos.

11.3 Mae taflen grynodeb a chopi o gyflwyniad Stuart Conney ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth.

11.4 Cyng Meredydd Williams – Ydi'r ymbelydredd mewn defaid wedi cynnyddu?
Nid oes cynnydd ac mae niferoedd y methiannau yn gostwng.

12. Adroddiad gan yr ADN

12.1 Adroddodd Glenn Vaughan bod yr ADN wedi sicrhau arian gan y llywodraeth i weithredu'r amcanion sydd yn y cynllun busnes. Eglurodd bod yr ADN yn cynnal adolygiad rheoli asedau yn Wylfa and mae'r ADN/EDF yn trafod cytundeb cyd-farchnata. Adroddodd ymhellach fod yr ADN wedi cwblhau cystadleuaeth Rheoli Niwclear (MANO) ar safleoedd eraill ac o ganlyniad byddent yn defnyddio'r gwybodaeth i baratoi strategaeth cystadleuaeth pellach.

12.2 Cyng Meredydd Williams – Mae trafodaethau yn cael eu cynnal parthed sefydlu Ymddiriedolaeth tir ac eiddo'r ADN yn Nhrawsfynydd, pryd fydd y gwybodaeth sydd yn angenrheidiol i'r Ymddiriedolaeth ar gael?
Mae'r ADN yn edrych ar ffyrdd o sefydlu Ymddiriedolaeth a dylai'r gwybodaeth fod ar gael erbyn diwedd Mawrth 2009.

13. Unrhyw fater arall

13.1 Adroddodd Idwal W Williams bod y strategaeth a drafodwyd yn y cyfarfod ym Maenceinion yn pwysleisio'r pwysigrydd o gadw'r rheilffordd rhwng Trawsfynydd Lake Halt a Blaenau Ffestiniog yn agored er mwyn cludo Gwastraff Lefel Isel. Ategodd y Cadeirydd ei fod hefyd yn bwysig ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol.

13.2 Bu i'r Cadeirydd ddiolch i bawb am fynychu'r cyfarfod a bu iddo ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Gofynnodd i Gyfarwyddwr y Safle a fyddai yn bosib trefnu ymweliad i aelodau'r GRhS i'r Storfa Gwastraff Canolradd er mwyn iddynt gael gweld gyda'u llygaid eu hunain bod y gwastraff yn cael ei gadw yn hollol ddiogel. Bu i Gyfarwyddwr y Safle gadarnhau y byddai yn bosib trefnu ymweliad o'r fath.
Gweithrediad: Richard Foxhall i drefnu'r ymweliad.

14. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Y cyfarfod nesaf yw gynnal dydd Llun 1 Mehefin 2009 am 11.00 o'r gloch yng Nghanolfan Gynadleddau a Chynefino Safle Trawsfynydd.